Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Unpublished

CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Canllawiau i leoliadau addysg a gofal plant ar gynllunio at argyfyngau ac ymateb iddynt

Sut dylai lleoliadau addysg a gofal plant gynllunio at argyfyngau a delio â nhw, gan gynnwys digwyddiadau sylweddol iechyd y cyhoedd a thywydd garw.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 19 Ebrill 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 28 Medi 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Newidiadau i'r canllawiau hyn

Cyflwyniad

Canllawiau i ysgolion

Canllawiau i leoliadau blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae

Canllawiau i leoliadau addysg bellach

Canllawiau i leoliadau addysg uwch

Atodiad A: Enghraifft o ganllawiau ar reoli digwyddiadau tyngedfennol mewn ysgolion

Atodiad B: Plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed

Atodiad C: Gweithwyr hanfodol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Newidiadau i'r canllawiau hyn

Mae’r diweddariad hwn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch:

- rhybuddion cenedlaethol
- canllawiau pellach ar gyfer ysgolion arbennig
- cefnogaeth ar gyfer y gweithlu a’r dysgwyr yn ystod argyfwng

## Cyflwyniad

`Mae’r canllawiau anstatudol hyn yn rhoi gwybodaeth er mwyn helpu pob lleoliad addysg a gofal plant i gynllunio ar gyfer amrywiaeth eang o argyfyngau ac ymateb iddynt.

Nid yw’r canllawiau hyn yn ymdrin â phob agwedd ar yr hyn y dylai lleoliadau ei wneud mewn perthynas â chynllunio at argyfyngau. Rhaid i leoliadau gydymffurfio â’u cyfrifoldebau cyfreithiol, gan gynnwys cyfraith iechyd a diogelwch, a dylent geisio cyngor cyfreithiol pan fo angen.

Mae’r canllawiau hyn wedi’u strwythuro i roi cyngor penodol i:

- ysgolion
- lleoliadau blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae (gan gynnwys darpariaeth gwarchod plant, gofal dydd, gofal sesiynol, chwarae mynediad

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

agored a Dechrau'n Deg)
- addysg bellach ac uwch

## Trosolwg

Mae pob argyfwng yn wahanol. Fodd bynnag, ym mhob achos, dylid ystyried effeithiau ar addysg ac ar les wrth gymryd unrhyw gamau brys a chamau i reoli risg. Lles y staff a'r disgyblion yw'r ystyriaeth bwysicaf, a dylai lleoliadau gofal plant ac addysg ymdrechu i aros ar agor ar gyfer cymaint â phosibl o ddysgwyr os yw'n ddiogel gwneud hynny. Dylai asesiadau risg, polisïau a chynlluniau gael eu hadolygu a'u diweddaru'n gyson er mwyn adlewyrchu canllawiau newydd neu sydd wedi'u diweddaru.

Dylid sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar addysg neu ofal plant, gan gynnwys bod cynifer â phosibl o blant, dysgwyr a myfyrwyr yn cael darpariaeth wyneb yn wyneb, er mwyn osgoi effeithiau tymor hwy ar ddatblygiad a lles plant a phobl ifanc. Mae diogelu plant a hybu eu lles o'r pwys mwyaf o hyd. Dylai ysgolion a lleoliadau barhau i ddilyn eu canllawiau statudol arferol ar ddiogelu.

Mae'n ofynnol i ysgolion gyfleu manylion cau ysgolion lleol dros dro neu ddigwyddiadau i Gyfarwyddwr Addysg eu hawdurdod lleol. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw achosion lleol o gau ysgolion dros dro. Dylid anfon hysbysiadau cau i **addysg.busnescorfforaetholachadernid@llyw.cymru** neu, yn achos colli pŵer neu gysylltedd, dylid ffonio 03001 231664. Croesawir galwadau yn Gymraeg.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Dylai ysgolion annibynnol gysylltu â Llywodraeth Cymru, fel y corff sy'n cofrestru cau unrhyw ysgolion. Dylid anfon yr hysbysiad i **ysgolionannibynnol@llyw.cymru**.

Dylai lleoliadau blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, ysgolion preswyl annibynnol a sefydliadau addysg bellach sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) roi gwybod i AGC os caiff lleoliadau eu cau dros dro. Dylai'r rhai a gaiff eu hariannu i gynnal darpariaeth addysg, y Cynnig Gofal Plant neu Dechrau'n Deg hefyd roi gwybod i'r swyddog perthnasol yn yr awdurdod lleol.

## Egwyddorion cynllunio at argyfyngau

Dylai pob lleoliad addysg, gofal plant a chwarae fod wedi rhoi cynlluniau argyfwng ar waith sy'n nodi'r camau i'w cymryd yn achos argyfwng. Nod cynllun argyfwng yw helpu arweinwyr a staff i ymateb yn effeithiol i argyfwng yn y lleoliad, neu ar ymweliad neu wibdaith, gan barhau i sicrhau cymaint â phosibl o ddysgu wyneb yn wyneb, datblygiad a gofal, a'u blaenoriaethu, lle bo modd. Er nad oes modd cynllunio ar gyfer pob argyfwng, dylai cynlluniau argyfwng fod yn ddigon cyffredinol i ymdrin ag amrywiaeth o ddigwyddiadau posibl, a all digwydd yn ystod oriau gwaith arferol neu'r tu allan iddynt, gan gynnwys penwythnosau a gwyliau.

Ymhlith y digwyddiadau hyn mae:

- digwyddiadau iechyd y cyhoedd (er enghraifft, achos sylweddol o glefyd heintus)
- tywydd garw (er enghraifft, gwres eithafol, llifogydd, stormydd neu eira)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- anaf difrifol i blentyn, dysgwr, myfyriwr neu aelod o staff (er enghraifft, damwain trafnidiaeth)
- difrod sylweddol i eiddo (er enghraifft, tân, difrod damweiniol)
- gweithgarwch troseddol (er enghraifft, bygythiad o fom, ymosodiad gwrthgymdeithasol neu fygythiol, tresmaswr, ymosodiad seiberddiogelwch)
- effeithiau trychineb yn y gymuned leol
- colli dŵr neu gyfleustodau

Dylai cynllun da ymdrin â'r canlynol:

- rolau a chyfrifoldebau
- pryd a sut y dylid ceisio cyngor os bydd angen
- manylion y mathau o gamau y gellid eu cymryd yn achos argyfwng a'r hyn y dylid ei wneud i'w rhoi ar waith yn gyflym
- sut i sicrhau y bydd pob plentyn, dysgwr neu fyfyriwr yn cael faint o addysg a gofal y mae ganddo hawl i'w cael fel arfer, a'u bod yn cyrraedd y safon y mae ganddo hawl i'w chael fel arfer, gan gynnwys o bell pan fydd hynny'n briodol
- cymorth ar gyfer lles staff, plant, dysgwyr a myfyrwyr
- i bwy y dylid rhoi gwybod (er enghraifft: yr awdurdod lleol, yswirwyr, landlordiaid, AGC)
- sut y caiff gwybodaeth am newidiadau ei rhannu â phlant, dysgwyr, myfyrwyr, rhieni, gofalwyr a staff, ynghyd ag unrhyw amserlen ar gyfer dychwelyd i'r drefn arferol os bydd modd
- sut i ymateb os na chaiff y cyngor ei dderbyn

Dylai'r cynllun hefyd gynnwys gweithdrefnau argyfwng ar gyfer:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- gwasanaethau estynedig (er enghraifft, clybiau gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol a gynhelir gan yr ysgol)
- diwrnodau agored, diwrnodau pontio neu ddiwrnodau rhagflas
- perfformiadau byw (gan gynnwys rhai gydag anifeiliaid) gyda chynulleidfa
- ymwelwyr
- teithiau y tu allan i'r lleoliad

Os oes gan y lleoliad gyfleusterau ehangach, dylai'r cynllun argyfwng gwmpasu'r ystad gyfan. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau na chânt eu defnyddio at ddibenion addysgol o bosibl, fel cyfleusterau llety, hamdden neu adloniant, canolfannau cynadledda, a chyfleusterau eraill a gaiff eu rhentu. Os nad yw'r gwasanaeth yn berchen ar y safle, fel lleoliad gofal plant mewn ysgol, bydd angen cynllunio ar y cyd er mwyn sicrhau cysondeb rhwng cynlluniau argyfwng.

Dylai copïau papur o'r holl gynlluniau a manylion cyswllt yr holl staff, plant, dysgwyr a myfyrwyr fod ar gael rhag ofn na fydd modd cael gafael ar wybodaeth ddigidol.

## Y broses o gynllunio at argyfyngau

Mae paratoi ar gyfer argyfyngau yn broses barhaus sy'n cynnwys:

- asesu risg
- cynllunio
- hyfforddiant
- ymarferion
- dysgu ac adolygu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ar bob cam yn y broses hon, mae’n bwysig ymgynghori ag aelodau o staff, byrddau rheoli, pwyllgorau a chyrff llywodraethu (neu’r rhai sy’n cyfateb iddynt yn eich lleoliad) er mwyn eu cynnwys a chael cymorth ganddynt.

**Rhybuddion argyfwng**

Bydd system rhybuddion argyfwng Llywodraeth y DU yn anfon rhybuddion at bob dyfais 4G a 5G gydweddol yng Nghymru a Lloegr os oes perygl i fywyd gerllaw.

Gallwch wirio bod rhybudd yn un dilys a chael rhagor o wybodaeth am sut mae’r rhybuddion argyfwng yn gweithio a’r rhesymau drostynt ar wefan Llywodraeth y DU:

**Am rybuddion argyfwng (gov.uk)**

**Sut mae'r rhybuddion argyfwng yn gweithio (gov.uk)**

Dylech adolygu eich cynlluniau argyfwng i gynnwys prosesau perthnasol os bydd rhybudd argyfwng yn eich ardal.

## Templed a chanllawiau ar gynllunio at argyfyngau

**Mae enghraifft o ganllawiau ar gynllunio ar gyfer rheoli digwyddiadau tyngedfennol** ar gael ac mae’n cynnwys enghreifftiau o’r canlynol:

- templed ar gyfer llunio cynllun argyfwng ysgol
- proses rheoli digwyddiadau tyngedfennol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- gweithdrefnau i ysgolion ar gyfer cyfyngiadau symud

Mae'n bosibl y bydd yr adnoddau hyn yn ddefnyddiol i bob lleoliad wrth ddatblygu trefniadau argyfwng priodol. Mae'n darparu fframwaith y gellir ei addasu i weddu i'r awdurdod lleol neu'r lleoliad addysg.

Nid oes angen i'r templedi a'r adnoddau enghreifftiol ddisodli unrhyw drefniadau sydd eisoes ar waith.

## Adnoddau

Gellir gweld templed enghreifftiol ar gyfer asesiad risg yn '**Agor ysgolion yn ogystal â lleoliadau gofal plant a chwarae yn ystod tywydd eithafol o arw a thywydd eithafol o boeth**'.

Er mwyn paratoi plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr i wybod sut i ymateb mewn argyfwng, bydd adnoddau a gwybodaeth ar gynllunio at argyfyngau y gellir eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth ar gael yn **hwb.llyw.cymru** cyn hir, sydd hefyd yn cynnig cyngor ac adnoddau ar gyfer dysgu o bell.

Ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, mae cymorth a chanllawiau hefyd ar gael gan y canlynol:

- timau gofal plant a chwarae awdurdodau lleol
- **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY Cymru)**
- **Blynyddoedd Cynnar Cymru** (lleoliadau blynyddoedd cynnar)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd** (meithrinfeydd dydd)
- **Clybiau Plant Cymru Kid’s Clubs** (clybiau y tu allan i’r ysgol a darpariaeth yn ystod y gwyliau)
- **Mudiad Meithrin** (darpariaeth cyfrwng Cymraeg)
- **Chwarae Cymru** (chwarae mynediad agored)

Mae **taflen ffeithiau ar gau lleoliadau gofal plant a chwarae dros dro neu mewn argyfwng** a luniwyd gan Cwlwm yn cynnwys cyngor defnyddiol i bob lleoliad. Gellir cael rhagor o gyngor gan y cyrff sy’n cynrychioli’r sector a restrir uchod.

# Canllawiau i ysgolion

## Digwyddiadau sylweddol sy’n gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd

Fel arfer, ni fydd un achos neu frigiad a amheuir o glefyd heintus yn gyfystyr ag argyfwng. Gellir rheoli’r rhan fwyaf o glefydau heintus ym myd addysg drwy ddilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru '**Infection prevention and control: Guidance for childcare and educational settings**' (Saesneg yn unig)**.** Mae gwybodaeth ychwanegol hefyd i’w chael gan GIG Cymru yn '**The communicable disease outbreak plan for Wales**' (Saesneg yn unig)**.**

Dylai cynlluniau argyfwng gynnwys amrywiaeth o gamau y gellid eu cymryd yn achos digwyddiad sylweddol sy’n gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd. Dylent hefyd ystyried pryd y byddai’n briodol ceisio cyngor arbenigol gan gynghorwyr iechyd y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cyhoedd a thîm diogelu iechyd yr awdurdod lleol yn unol â **chanllawiau** (Saesneg yn unig) Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yng Nghymru, mae dyletswydd statudol ar ymarferwyr meddygol cofrestredig i hysbysu eu timau o fewn awdurdodau lleol neu Iechyd Cyhoeddus Cymru am achosion a amheuir o rai clefydau heintus (hysbysadwy) penodol. Cysylltir ag ysgolion a lleoliadau os bydd angen cymryd camau yn y lleoliad fel rhan o broses rheoli iechyd y cyhoedd. Gellir rheoli'r rhan fwyaf o glefydau heintus mewn lleoliadau addysg drwy ddilyn **canllawiau** diweddaraf (Saesneg yn unig) Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mewn digwyddiadau mawr sy'n gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd lle y caiff penderfyniadau ynghylch y camau i'w cymryd mewn lleoliadau addysg eu gwneud ar lefel genedlaethol, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Prif Swyddog Meddygol, y Prif Swyddog Gwyddonol a llawer o adrannau eraill y Llywodraeth, yn ogystal ag awdurdodau lleol a'u cyfarwyddwyr iechyd y cyhoedd i roi'r cyngor a'r cymorth gorau posibl i ysgolion.

Mae'r cyngor iechyd y cyhoedd diweddaraf i ysgolion mewn perthynas â choronafeirws (COVID-19) i'w weld **yma**. Mae'r cyngor hwn yn cynnwys **rhestr wirio** ddefnyddiol a all eich helpu i ystyried pa fesurau rheoli sy'n dal yn gymesur i'w rhoi ar waith yn yr ysgol neu'r lleoliad.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru i ysgolion addysg arbennig ynghylch heintiau anadlol, gan gynnwys Covid-19, pan fyddwn yn gweld cynnydd mewn heintiau anadlol acíwt yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf: **Heintiau anadlol acíwt gan gynnwys COVID-19: canllawiau i ysgolion**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**addysg arbennig.**

Yn unol â rheoliadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar **awyru yn y gweithle** (Saesneg yn unig) a chyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae defnyddio dyfeisiau monitro carbon deuocsid ($CO^2$) yn effeithiol ac awyru da yn darparu mesur rheoli iechyd y cyhoedd effeithiol. Mae '**Dyfeisiau monitro carbon deuocsid mewn lleoliadau addysg**' yn darparu canllawiau ar sut i ddefnyddio dyfeisiau monitro carbon deuocsid fel cymorth i reoli awyru mewn lleoliadau addysg.

Bydd angen i leoliadau addysg hefyd ystyried defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) lle bo'n briodol.

Peth arall sy'n cael ei argymell yw fflysio cyfleusterau dŵr nad ydynt yn cael eu defnyddio yn aml er mwyn helpu i atal a rheoli bacteria legionella mewn systemau dŵr a systemau oeri, yn unol â **chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**. Mae'r ddolen yn cynnwys cyngor ac adnoddau ar asesu risg, a **symptomau a thriniaeth** legionella a chlefyd y llengfilwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r sefyllfa barhaus o ran iechyd y cyhoedd yn agos a bydd yn gwneud newidiadau **i'r cyngor hwn** yn ôl yr angen, yn seiliedig ar y cyngor diweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Prif Swyddog Meddygol. Yn achos sefyllfa iechyd y cyhoedd sy'n gwaethygu, ceir amrywiaeth o ymyriadau a fyddai'n cael eu hystyried i'w rhoi ar waith yn dibynnu ar ddifrifoldeb y sefyllfa a'r risg i iechyd y cyhoedd. Fel yn y gorffennol, bydd ysgolion yn ymwybodol y gall yr opsiynau hyn gynnwys cyflwyno ymyriadau anfferyllol, megis cadw pellter cymdeithasol neu wisgo gorchuddion wyneb a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

chau ysgolion yn llawn neu'n rhannol a symud i ddysgu ar-lein.

## Colli pŵer neu cyfleustodau neu dŵr yn annisgwyl

Mae angen i ysgolion feddwl beth i'w wneud pe byddent heb bŵer am gyfnod estynedig.

Dylai ysgolion ystyried a chael polisïau a phrosesau ar waith ar gyfer digwyddiadau annisgwyl fel colli pŵer neu gyfleustodau, yn yr un modd ag y maent yn ei wneud ar gyfer tywydd eithafol a thrafferthion eraill. Yn ôl eu natur, ychydig iawn o rybudd a geir o ddigwyddiadau hyn ac weithiau dim rhybudd o gwbl, felly dylai ysgolion gymryd yr amser i ystyried eu hymateb ymlae llaw.

Bydd yr ymateb hefyd yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau a dylai ysgolion gymryd y rhain i ystyriaeth wrth ystyried eu hymateb i golli pŵer neu dŵr yn annisgwyl. Wrth ystyried a all yr ysgol aros ar agor ai peidio, gallai lleoliadau ystyried y canlynol:

- a oes digon o olau a gwres ai peidio
- a oes dŵr ar gael ar gyfer yfed, toiledau a golchi dwylo ai peidio
- a oes modd paratoi a darparu bwyd yn ddiogel ai peidio

Efallai y byddant am ofyn cyngor Timau Iechyd yr Amgylchedd er mwyn deall y goblygiadau o ran yr uchod a'r camau y gall fod angen iddynt eu cymryd.

Wrth gynllunio eu hymateb, dylai ysgolion hefyd ystyried yr amser o'r dydd, yr adeg o'r flwyddyn, yr amodau amgylcheddol ehangach (tywydd poeth neu law

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

eithafol er enghraifft) a ph'un a yw'n fwy diogel i ddysgwyr a staff aros ar y safle neu roi trefniadau ar waith i ddysgwyr gael eu casglu neu i wneud eu ffordd adref. Ar ben hynny, wrth ystyried eu hymateb i golli pŵer neu cyfleustodau yn annisgwyl, bydd angen polisïau a gweithdrefnau clir ar ysgolion ar gyfer casglu plant. Bydd angen i ysgolion ystyried effaith bosibl colli pŵer, er enghraifft, colli llinellau ffôn tir.

Mae angen cael cynlluniau wrth gefn os bydd problem fwy eang gyda'r pŵer a allai effeithio ar allu rhieni neu gofalwyr i gysylltu â'r ysgol ac o bosibl i gasglu eu plant yn brydlon yn sgil colli'r defnydd o ffonau symudol neu amharu ar drafnidiaeth. Bydd yn rhaid i ysgolion gael proses yn amlinellu sut y gofelir am blant a'u cadw'n ddiogel os nad yw rhieni neu gofalwyr yn gallu eu casglu o'r lleoliad yn brydlon.

Os bydd ysgolion yn cau, dylent roi gwybod i'w hawdurdod lleol cyn gynted ag y gallant eu bod yn cau dros dro (gan ddefnyddio eu cyfrif ar-lein os yn bosibl). Byddant ond yn gallu ailddechrau eu gwasanaeth pan fydd y pŵer wedi'i adfer a/neu gyflenwadau dŵr wedi'u hailddechrau a'u cadarnhau'n ddiogel. Pan fydd hi'n ddiogel i ailagor yr ysgol, bydd angen cynnal asesiad risg, gyda'r awdurdod lleol.

Os caiff pŵer neu gwasanaeth cyfathrebu ei golli'n genedlaethol, mae angen i baratoadau fod ar waith yn yr ysgol. Dylai ysgolion ystyried argraffu copïau papur o gofrestrau, manylion cyswllt brys a'r canllawiau diweddaraf. Rydym hefyd yn argymell bod ysgolion yn ystyried lle addas ar gyfer cadw dogfennau copi caled a chyflenwad o ffaglau, batris a radio FM sy'n gweithio drwy fatris at ddefnydd brys. Os bydd problemau sylweddol gyda cholli pŵer, bydd cyhoeddiadau cyhoeddus yn cael eu gwneud ar radio FM..

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Tywydd garw

Yn ystod tywydd garw (er enghraifft, llifogydd, stormydd, eira neu dywydd poeth), safbwynt Llywodraeth Cymru fel mater o drefn yw y dylid cadw lleoliadau ar agor ar gyfer cynifer o blant, dysgwyr a myfyrwyr â phosibl. Fodd bynnag, gallai fod angen cau dros dro oherwydd anhygyrchedd neu risg o anaf. **Mae 'Agor ysgolion yn ogystal â lleoliadau gofal plant a chwarae yn ystod tywydd eithafol o arw a thywydd eithafol o boeth'** yn rhoi cyngor ymarferol i benaethiaid ar yr hyn y dylent ei ystyried os bydd angen iddynt benderfynu a ddylid cadw ysgol ar agor yn ystod cyfnodau o dywydd gwael iawn. Mae'n cynnwys deunyddiau asesu risg generig y gellir eu haddasu yn unol ag amgylchiadau pob ysgol.

Gwyddom y gall plant iau fod yn arbennig o agored i niwed yn sgil gwres eithafol. Dylai sefydliadau addysg sicrhau eu bod yn cymryd y camau angenrheidiol i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel, a hynny dan do ac yn yr awyr agored. Ein cyngor i ysgolion a lleoliadau gofal plant ar gyfer delio â gwres eithafol yw y dylid osgoi gweithgarwch corfforol egnïol a sicrhau cymaint o gysgod, awyru a hydradu â phosibl. Dylai plant wisgo dillad llac a golau os oes modd, a gwisgo hetiau ac eli haul yn yr awyr agored. Gellir lawrlwytho rhagor o gyngor gan **Iechyd Cyhoeddus Cymru** ar gyfer y cyhoedd a'r rhai sy'n gofalu am blant. Dylai sefydliadau addysg sicrhau eu bod yn gyfarwydd ag arwyddion gorludded gwres a thrawiad gwres, yn ogystal â'r camau y dylid eu cymryd os bydd unrhyw un yn eu cymuned ddysgu, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio o bell, yn dangos arwyddion o drawiad gwres neu orludded gwres. Mae canllawiau pellach ar hyn i'w gweld yng **nghyngor y GIG**. Dylid trin trawiad gwres fel argyfwng bob amser.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ragor o gyngor ar **ddigwyddiadau tywydd eithafol** eraill, megis tywydd oer a llifogydd.

Os caiff lleoliadau eu cau dros dro yn ystod tywydd garw, dylech ystyried darparu addysg o bell drwy gydol y cyfnod tra bydd yr ysgol ar gau yn unol â chanllawiau parhad dysgu (gweler yr adran ‘Parhad dysgu' isod). Ni fydd darparu addysg o bell yn newid yr angen i aros ar agor nac i ailagor cyn gynted â phosibl, cyn belled â’i bod yn ddiogel gwneud hynny.

Os bydd llifogydd neu dywydd garw wedi cael effaith sylweddol ar y lleoliad a bod angen cymorth ychwanegol, bydd yr awdurdod lleol yn gallu rhoi cymorth er mwyn sicrhau bod y lleoliad yn ailagor cyn gynted ac mor ddiogel â phosibl. Mae’n bwysig ailagor cyn gynted â phosibl cyn belled â’i bod yn ddiogel gwneud hynny.

Gellir gweld rhybuddion am lifogydd a chyngor ar lifogydd ar **wefan Cyfoeth Naturiol Cymru**. Rhif y Llinell Rhybuddion Llifogydd yw 0345 988 1188 (ar gael 24/7 ar gyfer cyngor a'r diweddaraf am lifogydd yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg).

Dylai lleoliadau hefyd fod yn effro i **rybuddion tywydd y Swyddfa Dywydd** (Saesneg yn unig) a rhagolwg llygredd aer **Ansawdd Aer yng Nghymru**.

## Digwyddiadau sy’n gysylltiedig â diogelwch mewn ysgolion

Mae’n ddyletswydd gyfreithiol ar bob lleoliad addysg yng Nghymru i sicrhau bod

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gan ddysgwyr fynediad i amgylchedd dysgu diogel. Corff llywodraethu'r ysgol sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch y dysgwyr, naill ai fel cyflogwr y staff neu am ei fod yn rheoli'r safle (neu'r ddau). Os nad y corff llywodraethu sy'n cyflogi staff yr ysgol, bydd gan yr awdurdod lleol gyfrifoldebau fel y cyflogwr.

Caiff dysgwyr eu diogelu gan y dyletswyddau a osodir o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch am fod menter cyflogwr yn effeithio arnynt neu am fod yn defnyddio safle ysgol. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr asesu a rheoli risg ac, fel arfer, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) sy'n gorfodi'r ddeddfwriaeth hon mewn perthynas ag ysgolion. Felly bydd gan bob ysgol weithdrefnau brys ar gyfer delio â digwyddiadau prin fel tresmaswyr neu derfysgaeth. Os bwriedir cynnal dril, dylid trafod unrhyw faterion ymlaen llaw gyda dysgwyr mewn modd sensitif a hysbysu rhieni neu gofalwyr neu gwarchodwyr er mwyn iddynt roi cymorth gartref os oes angen.

Mae dyletswydd statudol ar ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau y caiff eu dysgwyr eu diogelu'n effeithiol, gan gynnwys diogelwch ar-lein. Dylai awdurdodau lleol ystyried seiberddiogelwch, ochr yn ochr â'u rhwymedigaethau diogelu fel rhan o Ddeddf Addysg 1996 a Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015. Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol fod wedi rhoi polisïau seiber a chynlluniau rheoli digwyddiadau priodol ar waith, wedi'u datblygu ochr yn ochr â'u polisïau diogelu a diogelwch. Dylai unrhyw **ddigwyddiadau seiberddiogelwch** (Saesneg yn unig) gael eu rheoli yn unol â'r **cyngor a'r canllawiau** diweddaraf (Saesneg yn unig) gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am unrhyw ddigwyddiadau seiber sy'n gysylltiedig â Hwb. Drwy gydweithio'n agos â rhanddeiliaid ym mhob rhan o'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

sector addysg, caiff digwyddiadau seiberddiogelwch sy’n gysylltiedig â Hwb eu rheoli yn unol â chyngor a gweithdrefnau’r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliadau iechyd yn rheolaidd er mwyn rhoi sicrwydd bod uniondeb ac argaeledd Hwb wedi’u diogelu rhag bygythiadau neu ymgeisiau i gael mynediad heb ei awdurdodi.

Mae **Cadw dysgwyr yn ddiogel** yn nodi camau gweithredu a disgwyliadau a roddir ar ysgolion i sicrhau diogelwch a lles dysgwyr.

Mae **canllawiau** ac adnoddau wedi'u cynhyrchu gan Atal Terfysgaeth Cymru.

Mae **Plan to prepare: Prepare to protect** (Saesneg yn unig) hefyd yn rhoi cymorth i werthuso a rheoli’r risg sy’n gysylltiedig â therfysgaeth.

## Cynlluniau ôl-ddigwyddiad

Mae cynllunio ar gyfer canlyniadau digwyddiadau a chydnabod y trawma a all eu dilyn yn hanfodol ar gyfer gofal i’r dyfodol. Mae’n bwysig cydnabod straen neu PTSD yn dilyn digwyddiad trawmatig, ac mae cymorth ar gael i staff ysgolion sy’n dystion neu wedi bod yn rhan o ddigwyddiadau trawmatig.

Bwriad y broses TRiM (Trauma Risk Management) yw asesu ymateb aelodau staff (gan gynnwys grwpiau cysylltiedig penodol fel cwnstabliaid arbennig) sydd wedi dod i gysylltiad â digwyddiad trawmatig posibl. Ceir manylion am yr hyfforddiant a'r adnoddau ar **wefan 'March on stress'.**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cefnogi eich gweithlu, eich plant, eich dysgwyr a’ch myfyrwyr yn ystod argyfwng

Dylai cyflogwyr allu esbonio i’r gweithlu unrhyw gamau a gymerir i gadw staff yn ddiogel yn y gwaith fel rhan o’u cynlluniau argyfwng. Dylai’r asesiad risg ar gyfer y gweithle ystyried unrhyw risgiau i gyflogeion benywaidd sydd mewn oed i gael plant ac, yn benodol, risgiau i famau newydd neu fenywod beichiog. Dylai cyflogwyr drafod pryderon â’u staff.

Mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ragor o wybodaeth am **reoli risg ac asesu risg yn y gweithle** (Saesneg yn unig). Gall **Adnodd archwilio Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant ac addysg yng Nghymru** helpu darparwyr i atal a rheoli amrywiaeth o heintiau. Dylai asesiadau risg a’r polisïau sy’n deillio ohonynt nodi unrhyw gamau i’w cymryd mewn argyfwng yn glir.

Lleoliadau unigol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y gweithlu sy’n ofynnol i ddiwallu anghenion plant, dysgwyr a myfyrwyr yn y lleoliad. Yn achos absenoldebau staff heb eu cynllunio, dylid dilyn y broses arferol ar gyfer ymdrin ag absenoldeb yn y lle cyntaf. **Mae ‘Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol**’ yn rhoi canllawiau pellach.

Dylai ysgolion sy’n ystyried newid eu trefniadau dosbarth gadw’r canllawiau ar gapasiti ysgolion a’r terfynau ar faint dosbarthiadau babanod mewn cof. Mae Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Meintiau Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013 yn rhoi terfyn o 30 o ddysgwyr fesul athro ar faint dosbarth babanod, yn amodol ar nifer gyfyngedig o eithriadau a nodir yn y **Cod Derbyn i Ysgolion**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Blaenoriaethu lleoedd

Dan amgylchiadau eithriadol, os bydd angen blaenoriaethu lleoedd o fewn y lleoliad oherwydd lefelau absenoldeb uchel ymhlith y gweithlu (er enghraifft, os na fydd lleoliad yn gallu gweithredu ar ei gapasiti llawn), dylid rhoi blaenoriaeth i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed (gweler 'Atodiad A: Plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed') a phlant gweithwyr hanfodol (gweler 'Atodiad B: Gweithwyr hanfodol'). Gall y lleoedd sy'n weddill gael eu llenwi gan blant o'r tu allan i'r grwpiau blaenoriaeth hyn.

Gall yr amgylchiadau eithriadol gynnwys:

- cau lleoliad dan gyfarwyddyd yr awdurdod lleol neu Lywodraeth er budd yr ardal leol neu'r wlad – nid yw hyn yn cynnwys gwyliau banc, ond gallai gynnwys:
- salwch sydd ar led yng nghymuned yr ysgol gan arwain at gau'r ysgol yn llawn
- dim modd sicrhau lefelau staffio diogel
- cau adeilad am gyfnod byr oherwydd problemau diogelwch (er enghraifft, methiant y system wresogi, problemau gyda'r cyflenwad pŵer, tân neu lifogydd bach)
- cau adeilad am gyfnod hir oherwydd problemau diogelwch mawr (er enghraifft, adeiledd yr adeilad, tân mawr neu lifogydd mawr)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cofnodi presenoldeb yn ystod argyfwng

Dylai ysgolion a lleoliadau gadw cofnod o bresenoldeb a dylai teuluoedd roi gwybod i'r ysgol os na fydd eu plentyn yn gallu bod yn bresennol, gan esbonio'r rheswm dros hyn er mwyn i'r ysgol allu cofnodi presenoldeb yn gywir.

Rhaid i ysgolion sydd ar agor o hyd barhau i gofnodi presenoldeb y disgyblion yn y gofrestr gan ddefnyddio'r cod mwyaf priodol. Rhaid i'r cod ddilyn canllawiau presenoldeb yr ysgol.

Pan nad oes modd i ddisgyblion fynd i'r ysgol:

- o dan rai amgylchiadau eithriadol gallwch ddefnyddio'r cod Y (absenoldeb oherwydd amgylchiadau eithriadol) oni bai bod cod mwy priodol yn gymwys
- os ydynt yn sâl neu os oes ganddynt afiechyd heintus, dylech ddefnyddio cod I (salwch)

### Cofnodi presenoldeb ar gyfer addysg o bell

Dylech gyfeirio at y canllawiau ar ddarparu addysg o bell. Pan fo disgybl yn absennol ond yn derbyn addysg o bell, rhaid cofnodi hyn yn y gofrestr bresenoldeb gan ddefnyddio'r cod mwyaf priodol. Dylech barhau i gadw cofnod a monitro ymgysylltiad y disgybl ag addysg o bell. Nid oes rhaid i chi olrhain hyn yn ffurfiol yn eich cofrestr bresenoldeb.

Mae **canllawiau ar bresenoldeb** ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ac mae

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

'**Canllawiau ar godau presenoldeb yn yr ysgol**' yn nodi'r rhestr o godau presenoldeb i'w defnyddio ym mhob ysgol yng Nghymru.

## Plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed

Ar gyfer plant a phobl ifanc y mae angen iddynt gael cymorth ychwanegol (er enghraifft, dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA), anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu anableddau), dylai ysgolion a lleoliadau barhau i weithio gyda'r awdurdod lleol, yn ogystal â rhieni a gofalwyr, i benderfynu ar y ffordd orau o barhau i helpu'r plant hyn i aros yn iach.

Ym mhob achos, dylai ysgolion ac awdurdodau lleol weithio gyda'r teulu i roi tawelwch meddwl iddynt ynghylch y mesurau diogelwch sydd ar waith gyda'r bwriad o helpu'r plentyn i ddychwelyd i'r ysgol. Ym mhob achos, mae'n hanfodol bod yr ysgol yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd a'r dysgwr o bell.

**Mae 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel**' yn cynnwys canllawiau i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ar drefniadau ar gyfer diogelu plant.

## Diogelu

Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru gael un pwynt cyswllt er mwyn i bobl sy'n gweithio gyda phlant allu codi pryderon am blentyn sy'n wynebu risg. Dylai pawb sy'n gweithio mewn lleoliad addysg fod yn gyfarwydd â'r pwynt cyswllt yn yr awdurdod lleol a manylion y person diogelu dynodedig o fewn eu lleoliad addysg ar gyfer codi pryder o'r fath.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Rhaid i bob ysgol sicrhau bod polisi diogelu ar waith sy’n nodi manylion cyswllt pwynt cyswllt cyntaf yr awdurdod lleol yn glir. Dylai’r polisi hwn fod ar gael yn hawdd i bob aelod o staff ac mae hyn yn arfer effeithiol i bob lleoliad addysg.

## Darparu bwyd i ddysgwyr neu disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Dylai ysgolion siarad â'u hawdurdod lleol a'u tîm arlwyo ysgolion neu ddarparwr am y trefniadau gorau ar gyfer darparu prydau ysgol i ddisgyblion os bydd ysgolion yn cau oherwydd argyfwng. Dylent barhau i ddarparu opsiynau prydau ar gyfer pob disgybl sydd yn yr ysgol, a dylai prydau bwyd barhau i fod ar gael am ddim i bob disgybl sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim sy'n gysylltiedig â budd-daliadau.

Os bydd angen cau ysgolion oherwydd argyfwng, byddem yn annog ysgolion i weithio gyda'u hawdurdod lleol a'u tîm arlwyo ysgol neu ddarparwr bwyd i roi trefniadau ar waith i roi darpariaeth yn lle pryd ysgol i’r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n gysylltiedig â budd-daliadau lle bo hynny'n ymarferol ac yn bosibl; ar ôl ystyried goblygiadau gwneud hynny. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod disgyblion cymwys yn parhau i gael eu cefnogi yn y cyfnod byr nad ydynt yn gallu dod i'r ysgol.

Dylai ysgolion sicrhau eu bod yn nodi disgyblion ag unrhyw ofynion deietegol a ragnodwyd yn feddygol, gan gynnwys alergeddau, i sicrhau bod pob disgybl yn gallu bwyta cinio ysgol yn ddiogel. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn amgylchiadau lle nad yw arlwywyr yn gweini prydau bwyd i ddisgyblion yn uniongyrchol ond yn hytrach gweinir i’r disgyblion yn yr ystafell ddosbarth er

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

enghraifft.

## Lles a chymorth

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau statudol** i ddarparwyr addysg a gynhelir y gall darparwyr nas cynhelir eu defnyddio hefyd, gan gynnwys meithrinfeydd, addysg bellach ac addysg uwch, ar gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr, myfyrwyr a staff.

Mae cymorth ychwanegol hefyd ar gael i gynorthwyo a chefnogi dysgwyr, myfyrwyr a staff wrth iddynt roi'r fframwaith dull ysgol gyfan ar waith:

- mewngymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) drwy fyrddau iechyd yn cynnig goruchwyliaeth a chanllawiau i staff ysgolion ar faterion y bydd dysgwyr a myfyrwyr yn eu cyflwyno
- darpariaeth gwnsela ychwanegol ar gael i blant a phobl ifanc, yn ogystal â staff
- hyfforddiant i staff ysgolion ar ddefnyddio ymyriadau i gefnogi plant a phobl ifanc
- cyllid ychwanegol i ysgolion er mwyn defnyddio ymyriadau therapiwtig
- adnoddau ar-lein i ddysgwyr, myfyrwyr a staff ar gael ar Hwb
- **pecyn cymorth iechyd meddwl pobl ifanc**
- canllawiau i weithwyr proffesiynol ac ysgolion ar **ymateb i faterion hunan-niweidio a theimladau hunanladdol ymhlith pobl ifanc**
- **llinell gymorth** ffôn a negeseuon testun 24 awr CALL

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Tarfu ar arholiadau ac asesiadau

Os bydd cyfnod sylweddol o darfu cenedlaethol ar addysgu a dysgu wyneb yn wyneb, neu sefyllfa sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd sy'n atal y gyfres arholiadau lawn rhag cael ei chynnal, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cymwysterau Cymru a CBAC i gynllunio ar gyfer senarios lle na fydd modd dibynnu ar gyfres arholiadau lawn i ddyfarnu graddau.

Mae **Cynllun wrth gefn ar gyfer y system arholiadau** (Saesneg yn unig) ar gael i ddelio ag unrhyw darfu sylweddol a all effeithio ar ymgeiswyr mewn arholiadau ac os bydd angen rhoi trefniadau asesu amgen ar waith.

Yn achos tarfu sylweddol, bydd rhagor o gyngor a chymorth hefyd ar gael gan **CBAC** a **Cymwysterau Cymru**.

## Anghenion addysgol ychwanegol (ADY) a lleoliadau arbenigol

Mae canllawiau statudol ynghylch '**Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd**' yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a lleoliadau addysg yng Nghymru roi polisi anghenion gofal iechyd ar waith a ddylai geisio sicrhau y caiff dysgwyr sydd ag unrhyw gyflwr meddygol eu cefnogi'n briodol. Dylai ysgolion barhau i ymgynghori â rhieni a gofalwyr ynglŷn ag anghenion cymorth penodol ac arfer eu disgresiwn mewn modd hyblyg wrth gytuno ar y ffordd ymlaen ar gyfer dysgwyr penodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Byddem yn annog dull ymarferol a hyblyg i sicrhau y caiff anghenion unigolion eu diwallu. Dylid ystyried hyn fel rhan o unrhyw asesiad risg. Er enghraifft, gall fod yn briodol amserlennu a threfnu cylch hwy o gymorth un i un, er mwyn cyflawni lefelau cyffredinol o gymorth a sicrhau cyn lleied â phosibl o ryngweithio agos rhwng unigolion ar yr un pryd. Er na chynghorir ysgolion i gynnal grwpiau cyswllt, rydym yn cydnabod efallai y bydd rhai ysgolion am deilwra darpariaeth ar gyfer rhai dysgwyr sydd ag ADY o ganlyniad i anghenion iechyd penodol a ganfuwyd fel rhan o'r broses asesu risg.

## Lleoliadau preswyl mewn ysgolion annibynnol a sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol

Byddem yn annog dull ymarferol a hyblyg i sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu diwallu. Dylai hyn gael ei ystyried fel rhan o unrhyw asesiad risg. Er enghraifft, gall amserlenni a threfnu cefnogaeth un-i-un dros gyfnod hirach, er mwyn cynnal lefelau cyffredinol o gefnogaeth tra'n lleihau rhyngweithio agos rhwng unigolion, fod yn briodol.

Mae canllawiau statudol ynghylch **'Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd'** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a lleoliadau addysg yng Nghymru gael polisi anghenion gofal iechyd yn ei le i sicrhau bod myfyrwyr ag unrhyw gyflwr meddygol yn cael eu cefnogi'n briodol. Dylai ysgolion barhau i ymgynghori â rhieni a gofalwyr ynghylch anghenion cymorth penodol a defnyddio'u disgresiwn yn hyblyg wrth gytuno ar y ffordd ymlaen i ddysgwyr penodol.

Byddem yn annog ysgolion annibynnol a sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

barhau i ofalu am bobl ifanc lle bo'n ddiogel i wneud hynny a lle bo’n bosibl.

Dylai ysgolion annibynnol a sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol sydd wedi cofrestru gyda AGC roi gwybod i’r arolygiaeth os ydynt yn cau eu darpariaeth breswyl dros dro.

Mae’r ‘**Canllawiau ar gofrestru a gweithredu ysgolion annibynnol**’ yn darparu gwybodaeth bellach ar gyfer ysgolion annibynnol.

## Parhad dysgu

Yn ystod cyfnodau o darfu, mae’n hanfodol bod dysgu a lles yr holl blant a phobl ifanc yn ein hysgolion yng Nghymru yn cael eu cynnal. Er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cynllunio ar gyfer parhad dysgu a bod effaith unrhyw darfu ar ddysgu plant a phobl ifanc yn cael ei lliniaru, dylai pob ysgol yng Nghymru nodi eu cynlluniau wrth gefn ar gyfer parhad dysgu a’u cynnwys yn eu trefniadau arferol o ran cynllunio parhad busnes neu gynllun datblygu ysgol.

Mae templed cynllunio parhad dysgu a chanllawiau parhad dysgu wedi cael eu datblygu er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i ysgolion.

# Canllawiau i leoliadau blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae

Mae’r adran hon yn berthnasol i leoliadau blynyddoedd cynnar, gofal plant a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

chwarae, sy'n cynnwys gwarchod plant, gofal dydd, gofal sesiynol, chwarae mynediad agored a Dechrau'n Deg.

## Digwyddiadau sylweddol sy'n gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd

Fel arfer, ni fydd un achos neu frigiad a amheuir o glefyd heintus yn gyfystyr ag argyfwng.

Yng Nghymru, mae dyletswydd statudol ar ymarferwyr meddygol cofrestredig i hysbysu eu timau o fewn awdurdodau lleol neu Iechyd Cyhoeddus Cymru am achosion a amheuir o rai clefydau heintus (hysbysadwy) penodol. Cysylltir â lleoliadau os bydd angen cymryd camau yn y lleoliad fel rhan o broses rheoli iechyd y cyhoedd.

Gellir rheoli'r rhan fwyaf o glefydau heintus mewn lleoliadau gofal plant drwy ddilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru **Infection prevention and control guidance for childcare and educational settings** (Saesneg yn unig) yn ogystal â defnyddio'r **Adnodd archwilio ar gyfer lleoliadau gofal plant ac addysg yng Nghymru**, sy'n rhoi canllawiau ar arferion atal a rheoli heintiau, gan gynnwys glanhau teganau a chyfarpar a sut i ddelio â gwastraff. Mae gwybodaeth ychwanegol i'w chael yng **nghanllawiau** (Saesneg yn unig) Iechyd Cyhoeddus Cymru a chynllun GIG Cymru '**The communicable disease outbreak plan for Wales**' (Saesneg yn unig)**.**

Fodd bynnag, dylai lleoliadau fod wedi rhoi cynllun argyfwng ar waith ar gyfer ymdrin â digwyddiadau sylweddol sy'n gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd. Dylai'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cynllun gynnwys amrywiaeth o gamau y gellid eu cymryd yn achos digwyddiad sylweddol sy'n gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd, megis:

- pryd y byddai'n briodol ceisio cyngor arbenigol gan gynghorwyr iechyd y cyhoedd a thîm diogelu iechyd yr awdurdod lleol yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru '**Infection prevention and control guidance for Childcare and Educational Settings**' (Saesneg yn unig)
- defnyddio **cyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru ar fesurau i'w defnyddio yn ystod brigiad o achosion** fel yr amlinellir yn yr adnodd archwilio.
- y gweithdrefnau y dylai'r staff eu dilyn er mwyn cofnodi brigiad o achosion a rhoi gwybod i gyrff perthnasol fel AGC

Mewn digwyddiadau mawr sy'n gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd lle y caiff penderfyniadau ynghylch y camau i'w cymryd mewn lleoliadau gofal plant eu gwneud ar lefel genedlaethol, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Prif Swyddog Meddygol, y Prif Swyddog Gwyddonol a llawer o adrannau eraill y Llywodraeth, yn ogystal ag awdurdodau lleol a'u cyfarwyddwyr iechyd y cyhoedd i roi'r cyngor a'r cymorth gorau posibl i leoliadau gofal plant.

Mae'r cyngor iechyd y cyhoedd diweddaraf i leoliadau gofal plant a chwarae mewn perthynas â COVID-19 i'w weld **yma**. Mae'r cyngor hwn yn cynnwys **rhestr wirio** ddefnyddiol a all eich helpu i ystyried pa fesurau rheoli sy'n dal yn gymesur i'w rhoi ar waith yn yr ysgol neu'r lleoliad.

Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r sefyllfa barhaus o ran iechyd y cyhoedd yn agos a bydd yn gwneud newidiadau i'r **cyngor** hwn yn ôl yr angen, yn seiliedig ar y cyngor diweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Prif Swyddog

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Meddygol. Yn achos sefyllfa iechyd y cyhoedd sy’n gwaethygu, ceir amrywiaeth o ymyriadau a fyddai’n cael eu hystyried i’w rhoi ar waith yn dibynnu ar ddifrifoldeb y sefyllfa a’r risg i iechyd y cyhoedd.

## Tywydd garw

Ni all lleoliadau gofal plant a chwarae gynnig darpariaeth o bell ac felly dylai’r lleoliadau hynny y gall fod angen iddynt gau o ganlyniad i dywydd garw ailagor pan fydd hi’n ddiogel gwneud hynny. Dylai lleoliadau gofal plant gysylltu â thîm gofal plant a chwarae eu hawdurdod lleol i gael cymorth a chyngor os bydd tywydd garw wedi effeithio ar y lleoliad a’i weithrediad.

Gwyddom y gall plant iau fod yn arbennig o agored i niwed yn sgil gwres eithafol. Dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn cymryd y camau angenrheidiol i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel, a hynny dan do ac yn yr awyr agored. Ein cyngor i leoliadau gofal plant ar gyfer delio â gwres eithafol yw y dylid osgoi gweithgarwch corfforol egnïol a sicrhau cymaint o gysgod, awyru a hydradu â phosibl. Dylai plant wisgo dillad llac a golau os oes modd, a gwisgo hetiau ac eli haul yn yr awyr agored. Gellir lawrlwytho rhagor o **gyngor** gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer y cyhoedd a’r rhai sy’n gofalu am blant.

Dylai lleoliadau gofal plant a chwarae sicrhau eu bod yn gyfarwydd ag arwyddion gorludded gwres a thrawiad gwres. Mae canllawiau pellach ar hyn i’w gweld yng **nghyngor y GIG**. Dylid trin trawiad gwres fel argyfwng bob amser.

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ragor o gyngor ar **ddigwyddiadau tywydd eithafol** eraill, megis tywydd oer a llifogydd. Dylai darparwyr gofal plant a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

chwarae y bu’n rhaid iddynt symud i safle dros dro oherwydd tywydd garw roi gwybod i AGC ac edrych i weld a oes angen iddynt gofrestru’r safle newydd.

Os bydd yn rhaid i leoliad gau o ganlyniad i dywydd garw, bydd yr awdurdod lleol yn gwneud penderfyniadau ynghylch taliadau am unrhyw ofal plant a drefnwyd o dan y Cynnig Gofal Plant fesul achos fel yr amlinellir yng **nghanllawiau Cynnig Gofal Plant Cymru**.

Os bydd tywydd garw wedi cael effaith sylweddol ar eich lleoliad Dechrau’n Deg, dylech gysylltu â’ch awdurdod lleol i gael cyngor a chymorth.

## Colli pŵer neu cyfleustodau neu dŵr yn annisgwyl

Dylai lleoliadau ystyried a chael polisïau a phrosesau ar waith ar gyfer digwyddiadau annisgwyl fel colli pŵer neu gyfleustodau, yn yr un modd ag y maent yn ei wneud ar gyfer tywydd eithafol a thrafferthion eraill. Yn ôl eu natur, ychydig iawn o rybudd a geir o ddigwyddiadau hyn ac weithiau dim rhybudd o gwbl, ac felly dylent gymryd yr amser i ystyried eu hymateb ymlaen llaw.

Bydd yr ymateb hefyd yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau a dylai ysgolion gymryd y rhain i ystyriaeth wrth ystyried eu hymateb i golli pŵer neu dŵr yn annisgwyl. Wrth ystyried a all yr ysgol aros ar agor ai peidio, gallai lleoliadau ystyried y canlynol:

- a oes digon o olau a gwres ai peidio
- a oes dŵr ar gael ar gyfer yfed, toiledau a golchi dwylo ai peidio
- a oes modd paratoi a darparu bwyd yn ddiogel ai peidio

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Efallai y byddant am ofyn cyngor Timau Iechyd yr Amgylchedd er mwyn deall y goblygiadau o ran yr uchod a'r camau y gall fod angen iddynt eu cymryd.

Wrth gynllunio eu hymateb, dylai lleoliadau hefyd ystyried yr amser o'r dydd, yr adeg o'r flwyddyn, yr amodau amgylcheddol ehangach (tywydd poeth neu law eithafol er enghraifft).

Wrth ystyried eu hymateb i golli pŵer neu cyfleustodau yn annisgwyl, bydd angen polisïau a gweithdrefnau clir ar leoliadau ar gyfer casglu plant. Bydd angen i leoliadau ystyried effaith bosibl colli pŵer, er enghraifft, colli rhwydweithiau ffonau symudol. Gallai problem fwy eang gyda'r pŵer effeithio ar allu rhieni neu gofalwyr i gysylltu â'r lleoliad ac o bosibl i gasglu eu plant yn brydlon. Bydd yn rhaid i leoliadau gael proses yn amlinellu sut y gofelir am blant a'u cadw'n ddiogel os nad yw rhieni neu gofalwyr yn gallu eu casglu o'r lleoliad yn brydlon.

Os bydd lleoliadau'n cau, dylai'r rhai sydd wedi cofrestru gyda AGC roi gwybod i'r arolygiaeth os ydynt yn cau dros dro a hynny cyn gynted â phosibl (gan ddefnyddio eu cyfrif ar-lein os yn bosibl).

Os caiff pŵer neu gwasanaeth cyfathrebu ei golli'n eang mae angen i baratoadau fod ar waith yn y lleoliad. Dylai lleoliadau ystyried argraffu copïau papur o gofrestrau, manylion cyswllt brys a'r canllawiau diweddaraf. Rydym hefyd yn argymell bod lleoliadau yn ystyried lle addas ar gyfer cadw dogfennau copi caled a chyflenwad o ffaglau, batris a radio FM sy'n gweithio drwy fatris at ddefnydd brys. Os bydd problemau sylweddol gyda cholli pŵer, bydd cyhoeddiadau cyhoeddus yn cael eu gwneud ar y radio.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Bydd lleoliadau ond yn gallu ailddechrau eu gwasanaeth pan fydd y pŵer wedi’i adfer a/neu gyflenwadau dŵr wedi’u hailddechrau a'u cadarnhau’n ddiogel.

## Digwyddiadau sy’n gysylltiedig â diogelwch mewn lleoliadau gofal plant

Caiff plant a staff eu diogelu gan y dyletswyddau a osodir o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch am fod menter cyflogwr yn effeithio arnynt. Mae’r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr asesu a rheoli risg. Felly, mae’n bwysig bod lleoliadau gofal plant yn rhoi polisïau a chynlluniau ar waith ar gyfer rheoli digwyddiadau sy’n gysylltiedig â diogelwch ac ymateb iddynt.

Dylai polisïau diogelwch lleoliad ategu ei bolisi diogelu, yn enwedig o ran rhoi mesurau ar waith i amddiffyn plant. Dylai polisïau diogelwch fod yn rhan o gyfres o bolisïau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y plant a’r staff.

Dylai lleoliadau fod wedi rhoi polisïau seiber a chynlluniau rheoli digwyddiadau priodol ar waith, wedi’u datblygu ochr yn ochr â’u polisïau diogelu a diogelwch. Dylai unrhyw **ddigwyddiadau seiberddiogelwch** (Saesneg yn unig) gael eu rheoli yn unol â’r **cyngor a’r canllawiau** diweddaraf (Saesneg yn unig) gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Mae '**Plan to prepare: Prepare to protect**' (Saesneg yn unig) hefyd yn rhoi cymorth ar gyfer gwerthuso a rheoli’r risg sy’n gysylltiedig â therfysgaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cefnogi eich gweithlu a'ch plant yn ystod argyfwng

Fel cyflogwr, dylech allu esbonio i'ch gweithlu unrhyw gamau a gymerir i gadw staff yn ddiogel yn y gwaith fel rhan o'ch cynlluniau argyfwng. Dylai'r asesiad risg yn y gweithle hefyd ystyried risgiau i'r staff yn y lleoliad, gan roi sylw dyledus i aelodau o'r staff sy'n agored i niwed yn ogystal â mamau newydd neu fenywod beichiog.

Mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ragor o wybodaeth am **reoli risg ac asesu risg yn y gweithle** (Saesneg yn unig). Gall **Adnodd Archwilio Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant ac Addysg yng Nghymru** helpu darparwyr i atal a rheoli amrywiaeth o heintiau.

Dylai asesiadau risg a'r polisïau sy'n deillio ohonynt nodi unrhyw gamau i'w cymryd mewn argyfwng yn glir.

Dylai lleoliadau hefyd ystyried sut y byddant yn parhau i gyfathrebu â'u teuluoedd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau a rhoi cymorth posibl (er enghraifft, darparu syniadau ar gyfer gweithgareddau) i blant.

## Prinder staff yn ystod argyfwng

Mae'r **Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant wedi'i reoleiddio** yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i leoliadau gofal plant a chwarae eu bodloni mewn perthynas â datblygiad a gofal plant o enedigaeth hyd at 12 oed. Bydd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

angen i leoliadau gofal plant a chwarae, gan gynnwys darparwyr ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau, sy'n wynebu prinder staff sicrhau y gallant barhau i fodloni'r gofynion o ran maint grwpiau a'r gymhareb staff:plant a amlinellir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

## Blaenoriaethu lleoedd

Os bydd angen blaenoriaethu lleoedd yn y lleoliad oherwydd lefelau absenoldeb uchel ymhlith y gweithlu (er enghraifft, os na fydd lleoliad yn gallu gweithredu ar ei gapasiti llawn), dylid rhoi blaenoriaeth i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed (gweler 'Atodiad A: Plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed') a phlant gweithwyr hanfodol (gweler 'Atodiad B: Gweithwyr hanfodol'). Gall y lleoedd sy'n weddill gael eu llenwi gan blant o'r tu allan i'r grwpiau blaenoriaeth hyn.

## Plant sy'n agored i niwed

Ar gyfer plant y mae angen iddynt gael cymorth ychwanegol (er enghraifft, plant sydd ag ADY neu anableddau), dylai lleoliadau barhau i weithio gyda'r awdurdod lleol, yn ogystal â rhieni a gofalwyr, i benderfynu ar y ffordd orau o barhau i helpu'r plant hyn i aros yn iach. Ym mhob achos, dylai lleoliadau ac awdurdodau lleol weithio gyda'r teulu i roi tawelwch meddwl i'r teulu ynghylch y mesurau diogelwch sydd ar waith gyda'r bwriad o helpu'r plentyn i fod yn bresennol mewn lleoliad.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Diogelu

Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru gael un pwynt cyswllt er mwyn i bobl sy'n gweithio gyda phlant allu codi pryderon am blentyn sy'n wynebu risg. Yn unol â gofynion y **Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant wedi'i reoleiddir**, mae cyfrifoldeb ar ddarparwyr cofrestredig i sicrhau bod pawb sy'n gweithio mewn eu lleoliad gofal plant a chwarae yn gyfarwydd â'r pwynt cyswllt yn yr awdurdod lleol a manylion y person diogelu dynodedig o fewn eu lleoliad ar gyfer codi pryder o'r fath.

Rhaid i bob lleoliad sicrhau bod polisi a gweithdrefn ddiogelu ar waith sy'n nodi manylion cyswllt pwynt cyswllt cyntaf yr awdurdod lleol yn glir. Dylai'r polisi hwn fod ar gael yn hawdd i bob aelod o staff.

Disgwylir i leoliadau gofal plant a chwarae anghofrestredig (er enghraifft, sesiynau gofal plant a chwarae a/neu glybiau ar ôl ysgol sy'n gweithredu am lai na 2 awr) ddilyn y cyngor yng nghod ymarfer gwirfoddol Llywodraeth Cymru, sef '**Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: cod ymarfer diogelu**'.

Mae rhagor o gyngor ar gael gan **Weithdrefnau Diogelu Cymru** a'ch **byrddau diogelu rhanbarthol**.

## Lles a chymorth

Mae cymorth i leoliadau a staff ar gael drwy **Fframwaith Iechyd a Llesiant** Gofal Cymdeithasol Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Dylai lleoliadau ystyried yn ofalus sut y gallant gyfathrebu â staff a theuluoedd tra byddant ar gau. Dylent gytuno ar ddulliau o gadw mewn cysylltiad â staff yn rheolaidd a goruchwylio staff er mwyn cefnogi unrhyw waith a wneir.

Ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, mae cymorth a chanllawiau hefyd ar gael gan y canlynol:

- timau gofal plant a chwarae awdurdodau lleol
- **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY Cymru)**
- **Blynyddoedd Cynnar Cymru** (lleoliadau blynyddoedd cynnar)
- **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd** (meithrinfeydd dydd)
- **Clybiau Plant Cymru Kid's Clubs** (clybiau y tu allan i'r ysgol a darpariaeth yn ystod y gwyliau)
- **Mudiad Meithrin** (darpariaeth cyfrwng Cymraeg)
- **Chwarae Cymru** (chwarae mynediad agored)
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol

# Canllawiau i leoliadau addysg bellach

## Digwyddiadau sylweddol sy'n gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd

Fel arfer, ni fydd un achos neu frigiad a amheuir o glefyd heintus yn gyfystyr ag argyfwng. Gellir rheoli'r rhan fwyaf o glefydau heintus ym myd addysg drwy ddilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru '**Infection prevention and control**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**guidance for childcare and educational settings** (Saesneg yn unig). Mae gwybodaeth ychwanegol hefyd i'w chael gan GIG Cymru yn '**The communicable disease outbreak plan for Wales**' (Saesneg yn unig).

Dylai cynlluniau argyfwng gynnwys amrywiaeth o gamau y gellid eu cymryd yn achos digwyddiad sylweddol sy'n gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd. Dylent hefyd ystyried pryd y byddai'n briodol ceisio cyngor arbenigol gan gynghorwyr iechyd y cyhoedd a thîm diogelu iechyd yr awdurdod lleol yn unol â **chanllawiau** Iechyd Cyhoeddus Cymru (Saesneg yn unig).

Mae'r **cyngor iechyd y cyhoedd diweddaraf i fusnesau, cyflogwyr a threfnwyr digwyddiadau** mewn perthynas â COVID-19 yn cynnwys **rhestr wirio** ddefnyddiol a all eich helpu i ystyried pa fesurau rheoli sy'n dal yn gymesur i'w rhoi ar waith yn y coleg.

Yn unol â rheoliadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar **awyru yn y gweithle** (Saesneg yn unig) a chyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae defnyddio dyfeisiau monitro carbon deuocsid ($CO^2$) yn effeithiol ac awyru da yn darparu mesur rheoli iechyd y cyhoedd effeithiol. Mae '**Dyfeisiau monitro carbon deuocsid mewn lleoliadau addysg**' yn darparu canllawiau ar sut i ddefnyddio dyfeisiau monitro carbon deuocsid fel cymorth i reoli awyru yn y coleg.

## Tywydd garw

Yn ystod tywydd garw (er enghraifft, llifogydd, stormydd, eira neu dywydd poeth), safbwynt Llywodraeth Cymru fel mater o drefn yw y dylid cadw lleoliadau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ar agor ar gyfer cynifer o fyfyrwyr â phosibl. Fodd bynnag, gallai fod angen cau dros dro oherwydd anhygyrchedd neu risg o anaf.

Cyfrifoldeb y coleg yw cynnal asesiadau risg yn eu sefydliad a gwneud penderfyniadau ynghylch sut maent yn parhau i weithredu'n ddiogel ar draws eu hamgylcheddau addysgu a dysgu.

## Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â diogelwch mewn lleoliadau addysg bellach

Cyfrifoldeb y coleg yw diogelwch myfyrwyr a staff a dylech ystyried diogelwch ochr yn ochr â'ch cyfrifoldebau diogelu a'r rhwymedigaethau cyfreithiol sydd gennych fel cyflogwyr o dan **Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974** (Saesneg yn unig) a **Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999**. Fel cyflogwyr, dylai colegau sicrhau bod eu staff a'u myfyrwyr yn gyfarwydd â'r hyn sy'n ofynnol gan eu polisi a'u cynllun diogelwch.

Dylai digwyddiadau sy'n gysylltiedig â diogelwch, gan gynnwys seiberddiogelwch, fod yn rhan o'ch cofrestr rheoli risg weithredol a chael eu profi o dan gynlluniau parhad busnes. Gall colegau hefyd gael cymorth gan **Jisc** (Saesneg yn unig) i ddelio â digwyddiadau sy'n gysylltiedig â seiberddiogelwch a systemau eraill.

## Cefnogi eich gweithlu a'ch myfyrwyr yn ystod argyfwng

Mae **cyfrifoldeb cyfreithiol cyffredinol** (Saesneg yn unig) ar gyflogwyr i gynnal

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

iechyd a diogelwch a llesiant gweithwyr ac eraill sy’n bresennol ar eu safleoedd.

Bwriedir i’r **cyngor iechyd y cyhoedd i gyflogwyr, busnesau a sefydliadau** gael ei ddefnyddio fel canllaw ar gyfer cymryd mesurau lliniaru diogel rhag y risgiau sy’n gysylltiedig â’r clefydau trosglwyddadwy mwyaf cyffredin (gan gynnwys ffliw, norofeirws a COVID-19). Nid yw hyn yn disodli cyfrifoldebau statudol busnesau a chyflogwyr, ac mae’n bwysig eich bod yn parhau i gydymffurfio â’ch rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974*,* Rheoliadau’r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992, Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010 ac unrhyw reoliadau cyflogaeth eraill.

Dylai asesiadau risg yn y gweithle hefyd ystyried risgiau i’r staff yn y coleg, gan roi sylw dyledus i aelodau o’r staff sy’n agored i niwed yn ogystal â mamau newydd neu fenywod beichiog.

## Prinder staff yn ystod argyfwng

Lleoliadau addysg bellach sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y gweithlu sy’n ofynnol i ddiwallu anghenion myfyrwyr.

Dylai colegau aros ar agor ac yn weithredol ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb lle bo hynny’n ddiogel. Os bydd sefydliadau addysg bellach yn wynebu absenoldebau staff, dylent ddilyn eu proses arferol ar gyfer ymdrin ag absenoldebau yn y lle cyntaf.

Fel darparwr addysg bellach, os na fydd rhai aelodau o’ch staff yn gallu cyrraedd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

y gwaith, efallai yr hoffech ystyried:

- parhau i ddefnyddio staff dros dro
- y ffordd rydych yn defnyddio eich staff a defnyddio'r staff sydd gennych eisoes mewn ffordd fwy hyblyg
- dod â grwpiau a dosbarthiadau ynghyd gydag ymarferwyr a staff cymorth yn cydweithio â'i gilydd
- defnyddio arferion dysgu cyfunol neu roi addysg drwy ddulliau digidol er mwyn sicrhau parhad addysg

## Lles a chymorth

Mae'n bosibl y bydd rhai pobl ifanc ac oedolion yn profi amrywiaeth o emosiynau mewn ymateb i argyfwng, megis pryder, straen, neu hwyliau isel. Fel cyflogwyr, mae dyletswydd gofal ar golegau i'w staff a'u myfyrwyr, a dylent roi'r cymorth angenrheidiol i unigolion sy'n wynebu problemau lles.

Rydym yn argymell y dylai colegau gydweithio â'u staff, a'u myfyrwyr a'u teuluoedd sy'n awyddus i roi tawelwch meddwl iddynt. Dylai'r trafodaethau fod yn gydweithredol, gan ganolbwyntio ar les y myfyriwr ac ymateb i bryderon y rhiant, y gofalwr neu'r myfyriwr.

## Tarfu ar arholiadau ac asesiadau

Os na fydd myfyrwyr yn gallu mynychu'r coleg i sefyll arholiadau fel arfer, bydd y coleg yn cysylltu â myfyrwyr i ganfod a ellir sefyll yr arholiad mewn lleoliad arall

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gyda chytundeb y sefydliadau dyfarnu perthnasol. Gellir cael mynediad i ganllawiau'r Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) ar drefniadau safleoedd amgen trwy **wefan JCQ** (Saesneg yn unig).

Mae **Cynllun wrth gefn ar gyfer y system arholiadau** (Saesneg yn unig) ar gael i ddelio ag unrhyw darfu sylweddol a all effeithio ar ymgeiswyr mewn arholiadau ac os bydd angen rhoi trefniadau asesu amgen ar waith.

## Anghenion addysgol ychwanegol (ADY) a lleoliadau arbenigol

Mae canllawiau statudol ynghylch '**Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd**' yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a lleoliadau addysg yng Nghymru roi polisi anghenion gofal iechyd ar waith a ddylai geisio sicrhau y caiff myfyrwyr sydd ag unrhyw gyflwr meddygol eu cefnogi'n briodol.

Byddem yn annog dull ymarferol a hyblyg i sicrhau y caiff anghenion unigolion eu diwallu. Dylid ystyried hyn fel rhan o unrhyw asesiad risg. Er enghraifft, gall fod yn briodol amserlennu a threfnu cylch hwy o gymorth un i un, er mwyn cyflawni lefelau cyffredinol o gymorth a sicrhau cyn lleied â phosibl o ryngweithio agos rhwng unigolion ar yr un pryd.

Byddem yn annog lleoliadau addysg bellach arbenigol i barhau i ofalu am bobl ifanc, lle bo modd a lle bo hynny'n ddiogel.

Dylai lleoliadau addysg bellach arbenigol roi gwybod i Lywodraeth Cymru ar unwaith os bydd person ifanc yn absennol o'r coleg, beth bynnag fo'r rheswm.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae angen i golegau ei wneud yn y sefyllfaoedd hyn i'w gweld yn eu llythyrau cytundeb cyllido gan Lywodraeth Cymru.

Os na fydd myfyriwr yn gallu cwblhau'r rhaglen astudio y cytunwyd arni ar ei gyfer, gall colegau gyfeirio at y canllawiau sydd yn y polisi '**Sicrhau darpariaeth i bobl ifanc ag anawsterau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol**'. Cyfrifoldeb y coleg yw adolygu rhaglen astudio myfyriwr ac, os bydd angen, gyflwyno cais am estyniad i Lywodraeth Cymru ei ystyried. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y caiff ceisiadau i ymestyn lleoliad myfyriwr y tu hwnt i'r dyddiad gorffen gwreiddiol y cytunwyd arno ar gyfer y rhaglen eu cymeradwyo.

Dylai sefydliad addysg bellach a lleoliadau addysg bellach arbenigol hysbysu AGC os ydynt yn cau eu darpariaeth breswyl dros dro.

## Canllawiau i leoliadau addysg uwch

### Digwyddiadau sylweddol sy'n gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd

Fel arfer, ni fydd un achos neu frigiad a amheuir o glefyd heintus yn gyfystyr ag argyfwng. Fel sefydliadau ymreolaethol, gall lleoliadau addysg uwch weithredu yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd cenedlaethol. Dylai darparwyr addysg uwch sicrhau bod ymatebion i'r digwyddiadau iechyd y cyhoedd mwyaf difrifol yn cael eu trafod gyda'u cyfarwyddwr iechyd y cyhoedd lleol a'u cytuno ymlaen llaw fel rhan o'u cynlluniau wrth gefn, er enghraifft ar gyfer dechrau'r blynyddoedd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

academaidd.

Mae'r **cyngor iechyd y cyhoedd diweddaraf i fusnesau, cyflogwyr a threfnwyr digwyddiadau** mewn perthynas â COVID-19 yn cynnwys **rhestr wirio** ddefnyddiol a all eich helpu i ystyried pa fesurau rheoli sy'n dal yn gymesur i'w rhoi ar waith yn y lleoliad addysg uwch.

Yn unol â rheoliadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar **awyru yn y gweithle** (Saesneg yn unig) a chyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae defnyddio dyfeisiau monitro carbon deuocsid ($CO^2$) yn effeithiol ac awyru da yn darparu mesur rheoli iechyd y cyhoedd effeithiol. Mae '**Dyfeisiau monitro carbon deuocsid mewn lleoliadau addysg**' yn darparu canllawiau ar sut i ddefnyddio dyfeisiau monitro carbon deuocsid fel cymorth i reoli awyru mewn lleoliadau addysg uwch.

## Tywydd garw

Yn ystod tywydd garw (er enghraifft, llifogydd, stormydd, eira neu dywydd poeth), safbwynt Llywodraeth Cymru fel mater o drefn yw y dylid cadw lleoliadau ar agor ar gyfer cynifer o fyfyrwyr â phosibl. Fodd bynnag, gallai fod angen cau dros dro oherwydd anhygyrchedd neu risg o anaf.

Gan fod prifysgolion yn sefydliadu ymreolaethol, eu cyfrifoldeb nhw yw cynnal asesiadau risg yn eu sefydliad a gwneud penderfyniadau ynghylch sut maent yn parhau i weithredu'n ddiogel ar draws eu hamgylcheddau addysgu a dysgu.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â diogelwch mewn lleoliadau addysg uwch

Cyfrifoldeb y brifysgol yw diogelwch myfyrwyr a staff a dylech ystyried diogelwch ochr yn ochr â'ch cyfrifoldebau diogelu a'r rhwymedigaethau cyfreithiol sydd gennych fel cyflogwyr o dan **Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974** (Saesneg yn unig) a **Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999**. Fel cyflogwyr, dylai prifysgolion sicrhau bod eu staff a'u myfyrwyr yn gyfarwydd â'r hyn sy'n ofynnol gan eu polisi a'u cynllun diogelwch.

Dylai digwyddiadau sy'n gysylltiedig â diogelwch, gan gynnwys seiberddiogelwch, fod yn rhan o'ch cofrestr rheoli risg weithredol a chael eu profi o dan gynlluniau parhad busnes. Gall prifysgolion hefyd gael cymorth gan **Jisc** (Saesneg yn unig) i ddelio â digwyddiadau sy'n gysylltiedig â seiberddiogelwch a systemau eraill.

## Cefnogi eich gweithlu a'ch myfyrwyr yn ystod argyfwng

**Mae cyfrifoldeb cyfreithiol cyffredinol** (Saesneg yn unig) ar gyflogwyr i gynnal iechyd a diogelwch a llesiant gweithwyr, ac eraill sy'n bresennol ar eu safleoedd.

Bwriedir i'r **cyngor iechyd y cyhoedd i gyflogwyr, busnesau a sefydliadau** gael ei ddefnyddio fel canllaw ar gyfer cymryd mesurau lliniaru diogel rhag y risgiau sy'n gysylltiedig â'r clefydau trosglwyddadwy mwyaf cyffredin (gan gynnwys ffliw, norofeirws a COVID-19). Nid yw hyn yn disodli cyfrifoldebau statudol busnesau a chyflogwyr, ac mae'n bwysig eich bod yn parhau i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gydymffurfio â’ch rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974*,* Rheoliadau’r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992, Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010 ac unrhyw reoliadau cyflogaeth eraill.

Dylai asesiadau risg yn y gweithle hefyd ystyried risgiau i’r staff yn y lleoliad, gan roi sylw dyledus i aelodau o’r staff sy’n agored i niwed yn ogystal â mamau newydd neu fenywod beichiog.

## Prindr staff yn ystod argyfwng

Lleoliadau addysg uwch sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y gweithlu sy’n ofynnol i ddiwallu anghenion myfyrwyr.

Dylai lleoliadau addysg uwch aros ar agor ac yn weithredol ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb lle bo hynny’n ddiogel. Os bydd lleoliadau’n wynebu absenoldebau staff, dylent ddilyn eu proses arferol ar gyfer ymdrin ag absenoldebau yn y lle cyntaf.

## Lles a chymorth

Mae’n bosibl y bydd rhai pobl ifanc ac oedolion yn profi amrywiaeth o emosiynau mewn ymateb i argyfwng, megis pryder, straen, neu hwyliau isel. Fel cyflogwyr, mae dyletswydd gofal ar brifysgolion i’w staff a’u myfyrwyr, a dylent roi’r cymorth angenrheidiol i unigolion sy’n wynebu problemau lles.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Rydym yn argymell y dylai prifysgolion gydweithio â’u staff, a’u myfyrwyr a’u teuluoedd (lle bo’n briodol) sy’n awyddus i roi tawelwch meddwl iddynt. Dylai’r trafodaethau fod yn gydweithredol, gan ganolbwyntio ar les y myfyriwr ac ymateb i bryderon y rhiant, y gofalwr neu’r myfyriwr.

Byddem yn cynghori unrhyw fyfyriwr mewn addysg uwch sy’n profi problemau iechyd meddwl neu gorfforol i gysylltu â’u hundeb myfyrwyr a all helpu i archwilio’r gwasanaethau cymorth a lles myfyrwyr sydd ar gael iddynt gan eu darparwr prifysgol.

# Atodiad A: Enghraifft o ganllawiau ar reoli digwyddiadau tyngedfennol mewn ysgolion

Mae enghraifft o **ganllawiau ar reoli digwyddiadau tyngedfennol ar gael yn Atodiad A** (cynhyrchwyd gan Adran Addysg a Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyngor Sir Gâr)) ac mae’n cynnwys enghreifftiau o:

- dempled ar gyfer llunio cynllun argyfwng ysgol
- proses rheoli digwyddiadau tyngedfennol
- gweithdrefnau i ysgolion ar gyfer cyfyngiadau symud

Mae’n bosibl y bydd yr adnoddau hyn yn ddefnyddiol i bob lleoliad wrth ddatblygu trefniadau argyfwng priodol. Mae’n darparu fframwaith y gellir ei addasu i weddu i’r awdurdod lleol neu’r lleoliad addysg.

Nid oes angen i’r templedi a’r adnoddau enghreifftiol ddisodli unrhyw drefniadau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

sydd eisoes ar waith.

# Atodiad B: Plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed

Mae diffiniad eang o ddysgwr sy'n agored i niwed a dan anfantais wedi'i fabwysiadu yn ystod ymateb argyfwng COVID-19. Mae'n cynnwys dysgwyr sydd yn un neu fwy o'r grwpiau canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

- dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anghenion addysgol ychwanegol (ADY)
- dysgwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sydd â Chymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol (CIY/SIY)
- plant â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal
- dysgwyr sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol
- plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- gofalwyr ifanc
- plant sy'n wynebu risg o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod

Nid yw'r rhestr o grwpiau yn gynhwysfawr ac ni fydd pob dysgwr o'r grwpiau hyn yn wynebu rhwystrau i ddysgu nac yn agored i dangyflawni. Gall dysgwyr o'r grwpiau hyn wynebu amrywiaeth o rwystrau i gyflawni eu potensial ac felly bydd angen dulliau gwahanol arnynt a chymorth penodol er mwyn diwallu eu holl anghenion unigol. Yn ogystal, gall dysgwyr berthyn i sawl un o'r grwpiau uchod ar yr un pryd, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau unigol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Gellir ystyried bod dysgwyr nad ydynt yn y grwpiau hyn yn agored i niwed neu dan anfantais, gan gynnwys o ganlyniad i COVID-19 yn benodol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai dysgwyr, na fyddent wedi cael eu hystyried yn agored i niwed neu dan anfantais cyn COVID-19, pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol oherwydd eu profiad yn ystod y cyfyngiadau symud.

Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg sydd o gartrefi lle na chaiff y Gymraeg ei siarad, yn enwedig os ydynt yn wynebu rhwystrau eraill i ddysgu hefyd. Gall hyn fod yn wir i'r dysgwyr hynny nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf hefyd.

# Atodiad C: Gweithwyr hanfodol

Dylai lleoliadau addysg geisio sicrhau bod cynifer â phosibl o blant, dysgwyr a myfyrwyr yn cael darpariaeth wyneb yn wyneb yn ystod argyfwng. Os bydd effaith argyfwng yn golygu na all pawb gael darpariaeth wyneb yn wyneb, dylid rhoi gwybod i'r rhieni a gofalwyr wrth gyfathrebu â nhw ynglŷn ag effaith yr argyfwng. Wrth gyfathrebu â'r rhieni a'r gofalwyr, dylid nodi pa grwpiau a gaiff eu blaenoriaethu ar gyfer darpariaeth wyneb yn wyneb, a dylid eu gwahodd i roi gwybod i'r lleoliad os ydynt yn perthyn i un o'r categorïau o weithwyr hanfodol.

Ymhlith y rhieni a'r gofalwyr y mae eu gwaith yn hanfodol i'r ymateb i argyfwng mae'r rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac mewn sectorau allweddol eraill a amlinellir yn yr adrannau canlynol. Os bydd amgylchiadau eithriadol yn golygu y bydd presenoldeb wedi'i gyfyngu dros dro,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gall plant sydd ag o leiaf un rhiant neu ofalwr sy’n weithiwr hanfodol fynd i’w lleoliad os bydd angen, ond dylai rhieni a gofalwyr gadw eu plant gartref os oes modd.

## Iechyd a gofal cymdeithasol

Mae hyn yn cynnwys, ond nad yw’n gyfyngedig i’r canlynol:

- meddygon
- nyrsys
- bydwragedd
- parafeddygon
- gweithwyr cymdeithasol
- gweithwyr gofal
- staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen arall, gan gynnwys gwirfoddolwyr
- staff cymorth ac arbenigol sydd eu hangen i gynnal sector iechyd a gofal cymdeithasol y DU
- y rhai sy’n gweithio fel rhan o gadwyn gyflenwi iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cynhyrchwyr a dosbarthwyr meddyginiaethau a chyfarpar meddygol a diogelu personol

## Addysg a gofal plant

Mae hyn yn cynnwys:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- gofal plant
- staff cymorth a staff addysgu
- gweithwyr cymdeithasol
- gweithwyr proffesiynol addysg arbenigol y mae'n rhaid iddynt barhau i ddarparu hyn yn ystod ymateb i argyfwng

## Gwasanaethau cyhoeddus allweddol

Mae hyn yn cynnwys:

- y rhai sy'n hanfodol i weinyddu'r system gyfiawnder
- staff crefyddol
- elusennau a gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen
- y rhai sy'n gyfrifol am reoli'r ymadawedig
- newyddiadurwyr a darlledwyr sy'n darparu gwasanaeth darlledu cyhoeddus

## Llywodraeth leol a chenedlaethol

Mae hyn ond yn cynnwys y galwedigaethau gweinyddol hynny sy'n hanfodol er mwyn darparu'r canlynol yn effeithiol:

- ymateb i argyfwng
- gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, megis talu budd-daliadau gan gynnwys o fewn asiantaethau'r llywodraeth a chyrff hyd braich

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Bwyd a nwyddau angenrheidiol eraill

Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n:

- cynhyrchu bwyd
- prosesu bwyd
- dosbarthu bwyd
- gwerthu a danfon bwyd
- y rhai sy'n hanfodol i ddarparu nwyddau allweddol eraill (er enghraifft, nwyddau hylendid a meddyginiaethau milfeddygol)

## Diogelwch cyhoeddus a gwladol

Mae hyn yn cynnwys:

- yr heddlu a staff cymorth
- sifiliaid y Weinyddiaeth Amddiffyn
- contractwyr a phersonél o'r lluoedd arfog (y rhai sy'n hanfodol i ddarparu allbynnau allweddol ym maes amddiffyn a diogelwch gwladol ac sy'n hanfodol i ymateb i argyfwng)
- cyflogeion gwasanaethau tân ac achub (gan gynnwys staff cymorth)
- staff yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
- y rhai sy'n cynnal diogelwch y ffin, staff carchardai a phrawf a rolau eraill ym maes diogelwch gwladol, gan gynnwys y rhai dramor

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Trafnidiaeth

Mae hyn yn cynnwys:

- y rhai a fydd yn sicrhau bod dulliau trafnidiaeth drwy'r awyr, dros ddŵr, ar y ffyrdd a theithwyr rheilffyrdd a chludo nwyddau yn parhau yn ystod yr ymateb i argyfwng
- y rhai sy'n gweithio ar systemau trafnidiaeth y mae cadwyni cyflenwi yn mynd drwyddynt

## Cyfleustodau, cyfathrebu a gwasanaethau ariannol

Mae hyn yn cynnwys:

- staff y mae eu hangen i ddarparu gwasanaethau ariannol hanfodol (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithwyr mewn banciau, cymdeithasau adeiladu a seilwaith y farchnad ariannol)
- y sectorau olew, nwy, trydan a dŵr (gan gynnwys carthffosiaeth)
- y sector technoleg gwybodaeth a seilwaith data a chyflenwadau diwydiant cynradd y bydd angen iddynt barhau yn ystod ymateb i argyfwng
- staff allweddol sy'n gweithio ym meysydd niwclear sifil, cemegion, telathrebu (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithrediadau rhwydwaith, peirianneg maes, staff canolfannau galwadau, TG a seilwaith data, gwasanaethau hanfodol 999 ac 111)
- gwasanaethau post a dosbarthu
- darparwyr taliadau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- sectorau gwaredu gwastraff

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.